Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** Gofal Cymdeithasol i Blant

**SWYDD:** Unigolyn Cyfrifol – Gofal Cymdeithasol i Blant

**GRADD Y SWYDD:** GR15

**YN ATEBOL I'R:** Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Lleoliad a Darparwyr

**DIBEN Y SWYDD:**

Ymgymryd â gofynion statudol ar gyfer cartrefi gofal plant yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2016) a thrwy hynny ddarparu gwasanaethau cartref gofal o ansawdd uchel i ddarparu'r canlyniadau cadarnhaol i blant o dan ofal yr awdurdod lleol.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Rheoli a datblygu Gwasanaethau Cartrefi Gofal Preswyl i Blant a Phobl Ifanc, gan gynnwys darpariaeth gwasanaethau argyfwng ac asesu tymor byr, cartrefi hirdymor a seibiannau byr.
- Sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei ddyletswyddau statudol, gofynion rheoliadol yn effeithiol ac yn rheoli ei swyddogaethau anstatudol mewn perthynas â gwasanaethau preswyl.
- Cydweithio a datblygu cysylltiadau gyda phartneriaethau a chyfranogi mewn gweithio amlddisgyblaethol gyda phartneriaid, awdurdodau lleol eraill, cyrff rhanbarthol a chenedlaethol a sefydliadau preifat/cyhoeddus/trydydd sector sy'n angenrheidiol i gyflawni amcanion a gwelliannau i wasanaethau. Cynrychioli'r Gyfarwyddiaeth ar fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chymryd rhan mewn datblygiadau polisi/gwasanaeth yn unol â hynny.
- Diogelu a hyrwyddo llesiant plant/pobl ifanc drwy arwain ac ysgogi gwelliant o ran darparu gofal o ansawdd uchel a chynorthwyo ymyriadau mewn lleoliad preswyl. Sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â gweithdrefnau ac arferion diogelu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.
- Datblygu a gweithredu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar draws y gwasanaeth gan gynnwys y rhaglen archwilio i sicrhau bod y safonau proffesiynol uchaf yn cael eu cynnal a sicrhau bod llesiant plant a phobl ifanc yn cael ei gefnogi a'i ddiogelu.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau, polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau gweithredu'r gwasanaeth, gan ymateb i ganfyddiadau arolygu a sicrhau diwylliant o welliant parhaus.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwr Grŵp i ddatblygu'r strategaeth ar gyfer y gwasanaeth i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gofal cymdeithasol.

Bydd hyn yn cynnwys rheoli rhaglen o wella a newid ac ymateb yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

- Cynnal y safonau proffesiynol uchaf wrth gyflawni'r swydd hon a chadarnhau Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru; a'i hyrwyddo i eraill o fewn y maes cyfrifoldeb
- Rhoi arweinyddiaeth effeithiol drwy hyrwyddo dealltwriaeth o'r safonau ymarfer uchaf sy'n adlewyrchu meddwl arloesol presennol ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth weithio gyda phlant, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
- Arwain y gwaith o ddatblygu a darparu atebion arloesol, creadigol ac ymarferol mewn gwasanaethau gofal preswyl i alluogi newid a gwelliant, o fewn adnoddau.
- Rhoi arweinyddiaeth effeithiol a gweladwy i'r gweithlu gofal preswyl i blant, gan sicrhau bod cynllun gweithlu sy'n cyflawni nifer digonol o staff cymwys i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau; gweithio'n agos gyda Thîm Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a rheolwyr preswyl i sicrhau bod y rhaglen hyfforddi, cofrestru ac ailddilysu ar gyfer y gweithlu yn cael eu darparu. Sicrhau bod goruchwyliaeth ac arfarnu proffesiynol effeithiol ac o ansawdd uchel yn cael eu darparu.
- Rhoi arweiniad gweladwy i'r staff yn y gwasanaeth, gan ddarparu goruchwyliaeth ac arfarnu effeithiol ac o ansawdd uchel i gyflawni nodau ac amcanion y gwasanaeth a datblygiad a gwelliant proffesiynol parhaus, yn unol â pholisi'r Cyngor.
- Dirprwyo ar gyfer y Rheolwr Grŵp pan fo angen ac yn briodol drwy gytundeb.
- Ymgysylltu ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chael eu barn, neu aelodau o'r teulu neu gynrychiolwyr yr unigolion hynny, er mwyn ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.
- Darparu cymorth y tu allan i oriau i reolwyr yn ôl yr angen.
- Cymryd cyfrifoldeb personol am wybod y diweddaraf am ymchwil, deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â darparu Gofal Preswyl, gan gynnwys RISCA a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru.
  Cymryd cyfrifoldeb personol am ddatblygiad proffesiynol parhaus yn unol â gofynion cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Unigolyn Cyfrifol – Gofal Cymdeithasol i Blant

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Plant a Phobl Ifanc) Cymru (FfCCh) neu Radd mewn Gwaith Cymdeithasol neu NVQ 4 mewn Gwasanaethau Arweinyddiaeth a Rheoli Gofal.<br>• NVQ 4 mewn Gofal gyda gwybodaeth am:<br>- ddeddfwriaeth a rheoliadau presennol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, yn arbennig Deddf Plant 2004, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br>- Deddfwriaeth a rheoliadau presennol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau preswyl, yn arbennig Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017<br>- ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth am ofal ac ôl-ofal da a diogel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.<br>- Prosesau gwasanaethau plant.<br>• Model Adfer ar ôl Trawma a'r defnydd ohono.<br>• Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant pellach y nodir ei fod yn briodol ar gyfer y rôl.<br>• Cymraeg Lefel 2 i Lefel 5. | Ydy<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad sylweddol o weithio fel Rheolwr Preswyl mewn lleoliad Gofal Plant. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Gwybodaeth a phrofiad helaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â gofal cymdeithasol i blant wedi'i reoleiddio, yn benodol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a chanllawiau ategol. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Profiad sylweddol o reoli pobl ac adnoddau'n llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth helaeth am anghenion plant â phrofiad o fod mewn gofal a dyletswyddau statudol yr awdurdod lleol ar gyfer darparu gofal a chymorth iddynt. | Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu dadansoddi a nodi goblygiadau deddfwriaeth/polisi ar arfer proffesiynol. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gallu gweithio mewn ffordd broffesiynol, cynrychioli'r awdurdod ar amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol. | Ydy | |
| | • Ymrwymiad y gellir ei ddangos i gydraddoldeb ac arfer gwrth-wahaniaethol a'r gallu i integreiddio polisïau cydraddoldeb i mewn i ddarparu gwasanaeth. | Ydy | |
| | • Ymrwymiad i wella gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion yn ogystal â'u teuluoedd/gofalwyr. | Ydy | |
| | • Gallu arwain ac ysgogi timau ac ysbrydoli hyder. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu'n effeithiol, gan gyflwyno gwybodaeth gymhleth a rheoli gwrthdaro ar draws ffiniau proffesiynol a sefydliadol. | Ydy | |
| | • Gallu trefnu a chyflawni amrywiaeth eang o flaenoriaethau sy'n ymatebol i anghenion gwasanaethau cymdeithasol. | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu dod o hyd i atebion arloesol a chreadigol.<br>• Parodrwydd a gallu i fynegi barn mewn lleoliadau corfforaethol a phartneriaeth.<br>• Gallu gwerthuso a gweithredu ar faterion canmoliaethau a chwynion. | Ydy<br><br>Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Bod yn gyfarwydd â chyfrifiaduron ac yn gallu defnyddio Microsoft Office, a systemau TGCh eraill yn ôl y gofyn.<br>• Sgiliau rhifedd a dadansoddol i ddehongli data ymchwil.<br>• Ymroddiad i gyflwyno rhagoriaeth ym maes gofal cwsmeriaid.<br>• Gallu teithio'n annibynnol o fewn ardal ddaearyddol, trwydded yrru<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |